

# **Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Safonau y Senedd**

**1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020**

# Prif gyfrifoldebau'r Comisiynydd Safonau yw derbyn cwynion am ymddygiad Aelodau o'r Senedd ac ymchwilio iddynt, cyflwyno adroddiadau i'r Senedd am ei ymchwiliadau a rhoi cyngor i Aelodau o'r Senedd a'r cyhoedd am y weithdrefn gwyno.

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Comisiynydd Safonau y Senedd:  
[www.comisiynyddsafonau.cymru.org](http://www.comisiynyddsafonau.cymru.org).

Mae copïau o'r adroddiad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

**Comisiynydd Safonau y Senedd**

**Tŷ Hywel**

**Bae Caerdydd**

**CF99 1SN**

**Ffôn: 0300 200 6542**

**E-bost: [Comisiynydd.Safonau@senedd.cymru](mailto:Comisiynydd.Safonau@senedd.cymru)**



**Syr Roderick Evans**  
**Comisiynydd Safonau**  
**Rhagfyr 2016 – Tachwedd 2019**



**Douglas Bain CBE TD**  
**Comisiynydd Safonau Dros Dro y Senedd**  
**Tachwedd 2019 - presennol**

# **Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Safonau y Senedd**

**1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020**



# Cynnwys

- 01. Cyflwyniad .....1
- 02. Swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd.....2
- 03. Cwynion .....3
- 04. Gwaith arall.....9
- 05. Gwariant.....10
- 06. Y flwyddyn sydd i ddod .....11



# 01. Cyflwyniad

- 01.01. Yn absenoldeb Comisiynydd Safonau, fy nghyfrifoldeb i fel Comisiynydd Dros Dro yw cyflwyno adroddiad blynyddol 2019-20.
- 01.02. Cefais fy mhenodi'n Gomisiynydd Dros Dro ar 13 Tachwedd 2019 yn dilyn ymddiswyddiad Syr Roderick Evans ychydig ddyddiau ynghynt. Yn ystod ei dair blynedd bron fel y Comisiynydd, sbardunodd Syr Roderick rai newidiadau sylweddol wrth geisio safonau ymddygiad uwch fyth ymhlith Aelodau. Galwodd am adolygiad o'r Cod Ymddygiad a'r prosesau cysylltiedig, ac mae'r adolygiad hwnnw bellach ar y gweill. Daeth i gytundeb â Llafur Cymru, y Ceidwadwyr Cymreig, Plaid Cymru, Plaid Brexit, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ac UKIP ar y broses ar gyfer ymdrin â chwynion a wneir iddynt am ymddygiad eu Haelodau. O dan y broses honno, rhoddir gwybod i'r achwynwyr bod ganddynt ddewis i'w cwyn gael ei thrin naill ai gan y blaid wleidyddol neu gan y Comisiynydd annibynnol. O dan arweinyddiaeth Syr Roderick Evans ac mewn partneriaeth â Chomisiwn y Cynulliad, sefydlwyd llinell gymorth aflonyddu rhywiol wedi'i staffio gan bersonél hyfforddedig i ddarparu cefnogaeth arbenigol, pan fo hynny'n briodol, i achwynwyr. Yn ystod ei gyfnod, cynyddwyd nifer y staff a secondiwyd i'w swyddfa i'w gefnogi i fynd i'r afael â nifer gynyddol a chymhlethdod cynyddol y cwynion a gafodd. Mae'r cyraeddiadau eraill a nodir yn yr adroddiad hwn i'w priodoli, i raddau helaeth, i'w waith ef.
- 01.03. Byddai unrhyw beth yr wyf wedi'i gyflawni ers fy mhenodiad wedi bod yn amhosibl heb y ddealltwriaeth a'r gefnogaeth a gefais gan y rhai yr wyf wedi bod yn gweithio gyda hwy yn y Senedd. Mae pawb wedi mynd allan o'u ffordd i wneud i mi deimlo bod croeso i mi ac wedi egluro i mi'r ffordd y mae'r sefydliad hwnnw'n gweithio. Mae diolch arbennig yn ddyledus i staff fy swyddfa, Jonathan Thomas ac Abigail Phillips – heb eu hamynedd a'u proffesiynoldeb byddai fy nhasg o ddatblygu nifer o ymchwiliadau wedi bod yn anoddach ac wedi cymryd llawer yn hwy.
- 01.04. Roedd y ffaith fy mod i'n byw yng Ngogledd Iwerddon yn golygu her ychwanegol i'm staff o orfod gweithio gyda mi o bell. Mae'n fesur o'u brwdfrydedd eu bod wedi addasu'n gyflym iawn i'r ffordd newydd hon o weithio a dod o hyd i atebion i'r holl anawsterau cychwynnol a gafwyd. Ychydig a wyddem yn y cyfnod cyn Nadolig 2019 y byddai symud i weithio o bell yn ein rhoi mewn sefyllfa dda iawn i ddelio â'r cyfyngiadau symud a fyddai'n cael eu gosod i ddelio â phandemig COVID-19.
- 01.05. Yn yr adroddiad hwn ar ôl crynhoi dyletswyddau statudol y Comisiynydd, nodaf wybodaeth am gwynion, darnau eraill o waith a wnaed a'r gwariant a gafwyd, ac yna amlinellaf y gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- 01.06. Ar 6 Mai 2020, yn sgil gweld Rhan 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn dod i rym, newidiwyd teitl y Cynulliad Cenedlaethol, ei swyddogion a'i Aelodau. Mae cyfeiriadau atynt cyn y dyddiad hwnnw yn defnyddio'r enw cywir ar y pryd.

# 02. Swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd

- 02.01. Cafodd swyddfa Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei chreu gan adran 1(1) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 (y Mesur).<sup>1</sup> Mae adran 5 o'r Mesur hwnnw'n darparu ar gyfer annibyniaeth y Comisiynydd o gyfarwyddyd a rheolaeth y Cynulliad.
- 02.02. Mae adran 4 o'r Mesur yn darparu ar gyfer penodi Comisiynydd Dros Dro i gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd os yw'r rôl honno'n wag neu os yw'r Comisiynydd, am unrhyw reswm, yn methu â gweithredu. Mae gan Gomisiynydd dros dro holl bwerau a dyletswyddau'r Comisiynydd.
- 02.03. Nodir swyddogaethau'r Comisiynydd yn adrannau 6 a 7 o'r Mesur a gellir eu crynhoi fel a ganlyn –
- Derbyn, ymchwilio neu adrodd ar unrhyw gŵyn bod Aelod wedi methu â chydymffurfio â gofyniad o'r Cod Ymddygiad<sup>2</sup> neu ddarpariaeth berthnasol arall;<sup>3</sup>
  - Cynghori Aelodau ac aelodau'r cyhoedd ar y broses ar gyfer gwneud cwynion ac ymchwilio i gwynion;
  - Rhoi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater o egwyddor gyffredinol sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau, y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â hyrwyddo, annog a diogelu safonau uchel o ymddygiad mewn swydd gyhoeddus fel Aelod Cynulliad.
- 02.04. Mae adran 19 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd, cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar sut mae swyddogaethau'r Comisiynydd wedi cael eu harfer yn ystod y flwyddyn honno.

---

1 <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/4/contents>;

<http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/4/contents/enacted/welsh>

2 <https://senedd.wales/cy/memhome/code-conduct-mem/Pages/default.aspx>

3 Fel y'i diffinnir yn adran 6(3) o'r Mesur



# 03. Cwynion

## Cyflwyniad

03.01. Mae adran 10 o'r Mesur yn gwneud darpariaethau i'r Comisiynydd ymchwilio i gwynion. Mae adran 10(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ymchwilio i gwynion a chyflwyno adroddiad arnynt yn unol â'r Rheolau Sefydlog ac unrhyw reolau a fabwysiadwyd gan y Cynulliad sy'n ymwneud ag ystyried cwynion. Y rheolau cyfredol i'w dilyn yw'r Weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad ('y Weithdrefn').<sup>4</sup> Mae adran 10(2) o'r Mesur yn darparu mai "mater i'r Comisiynydd yw penderfynu pryd a sut y dylid cynnal ymchwiliad a chyflwyno adroddiad ar ei ganlyniad".

## Diffiniad cwyn

03.02. Yn sgil ymchwil a wnaed gan fy staff, datgelwyd nad oedd diffiniad cytunedig o ystyr cwyn. Dros y blynyddoedd defnyddiwyd gwahanol 'ddiffiniadau' gan ei gwneud hi'n anodd sefydlu tueddiadau a chan hynny'n anodd cymryd camau adferol priodol. Weithiau arweiniodd y 'diffiniadau' hyn at dan-adrodd ar nifer y cwynion a gafwyd ac y gwnaed penderfyniad yn eu cylch. Er enghraifft, lle gwnaeth nifer o achwynwyr gŵyn yn erbyn yr un Aelod am yr un ymddygiad i raddau helaeth, fe'u cyfrifid weithiau fel un gŵyn.

03.03. At ddibenion yr adroddiad hwn, ystyr 'cwyn' yw achlysur pan gyfathrebir â'r Comisiynydd yn honni bod Aelod Cynulliad, plaid wleidyddol, sefydliad arall neu berson arall wedi torri un neu fwy o ddarpariaethau Cod Ymddygiad Aelodau'r Cynulliad<sup>5</sup> ('y Cod') neu ddarpariaeth arall a bennir yn Rheol Sefydlog 22.2.<sup>6</sup>

03.04. Er y bydd cwynion nad ydynt yn ysgrifenedig ac/neu yn erbyn Aelod penodol bob amser yn annerbyniadwy, mae'n bwysig casglu gwybodaeth amdanynt. Pan fo cwyn yn honni mwy nag un enghraifft o gamymddwyn, at ddibenion yr adroddiad hwn, ystyrir hyn fel un gŵyn. Mae materion a gyfeiriwyd at y Comisiynydd gan Glerc y Cynulliad o dan adran 9 o'r Mesur hefyd yn cael eu hystyried yn gwynion.

## Cwynion a ddygwyd ymlaen o 2018-19

03.05. Ar ddechrau'r flwyddyn adrodd roedd wyth cwyn wedi'u dwyn ymlaen o 2018-19. Roedd saith ohonynt wedi'u gwneud yn y flwyddyn honno. Daethpwyd i gasgliad ar gyfer y rhain oll. Cafwyd bod pump yn annerbyniadwy a chyflwynwyd adroddiadau i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ('y Pwyllgor') ar y ddau arall. Bydd y rhesymau pam na chafwyd casgliad i'r wythfed gŵyn, sydd wedi bod yn mynd rhagddi ers mis Hydref 2017, yn fy adroddiad ar yr ymchwiliad hwnnw, yr wyf yn gobeithio ei gyflwyno i'r Pwyllgor cyn hir.<sup>7</sup>

## Cwynion newydd

03.06. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 106 o gwynion newydd. Hyd yn oed pe caniateid ar gyfer y diffiniad newydd o gŵyn, dyma'r nifer uchaf o bell ffordd ers sefydlu swyddfa'r Comisiynydd yn 2009, ac mae'n gynnydd o 147% ers 2018-19. Yn ôl y 'diffiniad' o gŵyn a ddefnyddiwyd yn 2018-19 byddai'r cynnydd wedi bod yn 33%. O'r cwynion newydd hyn, canfuwyd bod 84 yn annerbyniadwy. Roedd chwech yn ymwneud â methu â chofrestru buddiant nad oedd unrhyw

4 <https://senedd.wales/en/memhome/code-conduct-mem/Pages/procedure-complaints.aspx>

5 <https://senedd.wales/cy/memhome/code-conduct-mem/Pages/code-conduct-mem.aspx>

6 <https://senedd.wales/cy/memhome/code-conduct-mem/Pages/standing-orders-conduct.aspx>

7 Anfonwyd adroddiad ar yr ymchwiliad at y Pwyllgor ar 19 Mehefin 2020

gamau pellach yn briodol yn ei gylch, ac mewn chwech arall penderfynodd yr achwynwyr beidio â pharhau â'u cwyn. Cyflwynwyd adroddiadau i'r Pwyllgor ar ymchwiliadau i ddwy o'r cwynion derbyniadwy eraill ac ymdriniwyd ag un gŵyn o dan y weithdrefn gywiro a ddarperir ym mharagraff 10 o'r Weithdrefn. Nid oedd derbynioldeb saith cwyn arall wedi'i bennu erbyn diwedd y flwyddyn. Dygwyd y rhain ymlaen i 2020-21.

**Tabl 1: Cwynion a dderbyniwyd, ffynhonnell a derbynioldeb**

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019 -20
Cyflwynwyd	24	29	26	43	106
% gan y cyhoedd	95.5	83.3	73.1	86	76.4
% gan Aelod	0	3.3	11.5	7	13.2
% gan Clerc y Cynulliad	4.5	13.3	15.4	7	10.4
% nad oeddent yn dderbyniadwy	75	89.7	80.8	76.7	85.9
% derbynioldeb heb ei benderfynu erbyn diwedd y flwyddyn	12.5	10.3	11.5	16.3	6.6

03.07. Un Aelod oedd yr achwynydd mewn saith o'r 14 cwyn a wnaed gan Aelodau. Mae'r rhif hwnnw'n cynnwys un gŵyn a wnaed gan y Llywydd yn rhinwedd y ei rôl ac un hunangyfeiriad gan Aelod. Mae lle i gredu bod rhai o'r cwynion a wnaed gan aelodau'r cyhoedd wedi'u gwneud yn dilyn anogaeth gan Aelod.

03.08. O gyfanswm y cwynion a wnaed gan Aelodau, gwnaed saith gan Aelodau Annibynnol, tair gan Aelodau Llafur Cymru, dwy gan Aelodau Plaid Cymru ac un gan Aelod Plaid Brexit.<sup>8</sup>

03.09. O'r 11 cwyn a wnaed gan Aelodau yn erbyn Aelodau eraill, roedd chwech yn erbyn Aelodau Llafur Cymru, tair yn erbyn Aelodau Plaid Brexit, dwy yn erbyn Aelodau Annibynnol ac un yn erbyn Aelod Plaid Cymru. Roedd dwy gŵyn a wnaed gan Aelod nad oeddent yn ymwneud ag Aelodau.<sup>9</sup>

03.10. Pan fo gan Clerc y Cynulliad sail resymol dros amau bod Aelod wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r darpariaethau a bod yr ymddygiad yn ymwneud â'i rôl, rhaid iddi fel y prif swyddog cyfrifyddu roi gwybod am y mater i'r Comisiynydd ac mae'n rhaid i'r Comisiynydd wedyn, ac eithrio yn achos methiant honedig i gofrestru neu ddatgan buddiant, drin y gŵyn yn yr un modd ag unrhyw gŵyn arall.<sup>10</sup> Pan fo'r achos o ddiffyg cydymffurfiaeth yn ymwneud â methiant honedig i gofrestru neu ddatgan buddiant, rhaid i'r Comisiynydd ystyried yn gyntaf a dorrwyd adran 36(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.<sup>11</sup> Os daw'r Comisiynydd i'r casgliad y gallai methiant o'r fath fod wedi digwydd rhaid i'r Comisiynydd fwrw ymlaen yn unol â'r Protocol rhwng y Comisiynydd Safonau, y Cynulliad Cenedlaethol a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.<sup>12</sup> Ym mhob achos arall, ymdrinnir â'r mater fel cwyn gyffredin. Dros y flwyddyn, cyfeiriodd y Clerc 11 mater at y Comisiynydd. Cafodd pob un ohonynt eu trin fel cwynion cyffredin.

8 Y blaid a gofnodir yw'r blaid yr oedd yr Aelod yn perthyn iddi ar adeg gwneud y gŵyn

9 Ibid

10 Adran 9 o'r Mesur

11 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/section/36>

12 <https://senedd.wales/cy/memhome/code-conduct-mem/Pages/protocol-standards.aspx>

**Tabl 2: Rhesymau dros annerbynioldeb<sup>13</sup>**

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
Ddim yn ysgrifenedig <sup>14</sup> (Maen Prawf i)	0	0	0	0	0
Ddim yn ymwneud ag ymddygiad yr Aelod a nodwyd (Meini Prawf ii & iv)	1	2	1	1	5
Cwyn neu achwynydd anhysbys heb fanylion digonol (Maen Prawf iii)	0	0	0	1	3
Ddim o fewn yr amser a ganiateir (Maen Prawf v)	4	0	0	0	2
Sylwedd annigonol i gyfiawnhau ymchwiliad pellach (Maen Prawf vi)	18	26	21	40	82

**Tabl 3: Esboniad pellach o gwynion y canfuwyd eu bod yn annerbyniadwy oherwydd sylwedd annigonol i gyfiawnhau ymchwiliad pellach (Maen Prawf vi)**

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
Mynegiad barn	0	3	0	8	53
Tystiolaeth annigonol	3	4	6	8	10
Safonau gwasanaeth	7	3	5	9	8
Islaw'r trothwy cofrestru	0	3	0	0	3
Ynglŷn ag ymddygiad Gweinidog	5	3	2	2	3
Ynglŷn ag ymddygiad yn y Siambr	0	1	3	1	0
Arall	3	9	5	12	5

03.11. Y rheswm mwyaf cyffredin o bell ffordd dros bennu cwynion yn annerbyniadwy oedd eu bod yn ymwneud â mynegiadau barn gan Aelodau. Roedd 37 o'r 53 cwyn annerbyniadwy yn y categori hwn yn ymwneud â defnydd Aelod o ddelweddau Natsïaidd mewn negeseuon Twitter a wnaed ar adeg etholiadau Senedd Ewrop. Roedd deg arall o'r cwynion hyn yn ymwneud â neges Twitter gan Aelod yn beirniadu Greta Thunberg. Mae gan bawb hawl i ryddid mynegiant, ac yn y byd gwleidyddol mae'r hawl honno'n cael ei hymestyn. Mae'r dyfarniad hwn wedi hen ennill ei blwyf: "in a political context, a degree of the immoderate, offensive, shocking, disturbing, exaggerated, provocative, polemical, colourful, emotive, non-rational and aggressive that would not be accepted outside that context, is tolerated".<sup>15</sup> Nid yw hawl gwleidyddion yn absoliwt ac nid yw'n esgusodi sylwadau personol tramgwyddus.

03.12. Mae'r Weithdrefn yn darparu ar gyfer dau gam posibl wrth ymchwilio i gŵyn. Yn ystod y Cam Ymchwilio Rhagarweiniol, gall y Comisiynydd wneud ymholiadau i'w alluogi i wneud penderfyniad ynghylch derbynioldeb y gŵyn. Dim ond os bodlonir y meini prawf derbynioldeb y mae ymchwiliad

13 Mae'r meini prawf derbynioldeb ym mharagraff 3.1 o'r Weithdrefn

14 Nid yw'r wybodaeth hon wedi'i chofnodi hyd yma, ond fe fydd yn cael ei chofnodi yn 2020-21

15 Heesom v Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru [2014] EWHC 1504 (Gweinyddiaeth) gweler Higginbottom J @ paragraff 38, a'r awdurdodau a ddyfynnwyd

yn mynd ymlaen i'r ail gam, sef Ymchwiliad Ffurfiol. Os daw'n amlwg yn ystod y cam cyntaf, hyd yn oed ar ôl ymchwiliad ffurfiol, na fydd tystiolaeth ddigonol y torrwyd y Cod neu ddarpariaeth berthnasol arall, bydd y broses yn dod i ben ac ni fydd y gŵyn yn dderbyniadwy.

- 03.13. Mae cylch gwaith y Comisiynydd wedi'i gyfyngu i ymchwilio i achosion honedig lle torrwyd y Cod Ymddygiad neu i faterion eraill a bennir gan Reol Sefydlog 22. Ni fyddai gwasanaeth gwael gan Aelod yn groes i unrhyw un o'r materion hynny, a chan hynny mae cwynion am wasanaeth gwael honedig gan Aelod bob amser yn annerbyniadwy. Yr ateb ar gyfer gwasanaeth gwael o'r fath yw drwy'r blwch pleidleisio, nid drwy gŵyn i'r Comisiynydd.
- 03.14. O dan Reol Sefydlog 2.2 mae'n ofynnol i Aelodau gofrestru buddiant ariannol a buddiant penodol arall mewn cofrestr a gedwir gan y Swyddfa Gyflwyno ar ran y Llywydd. Mae'n ofynnol i Aelodau gofrestru unrhyw roddion, lletygarwch, budd neu fantais faterol arall sydd â gwerth dros £320. Yn ystod yr ymchwiliad rhagarweiniol i fethiant honedig i gofrestru buddiant o'r fath, os daw'n amlwg bod y gwerth yn is na'r trothwy hwnnw, nid yw'r gŵyn yn dderbyniadwy.
- 03.15. Mae adran 8 o'r Mesur yn ei gwneud yn glir nad oes gan y Comisiynydd rôl mewn perthynas â chwynion am gamymddwyn honedig gan Weinidog. Pan geir cwynion am gamymddwyn o'r fath, cyfeirir yr achwynydd at swyddfa'r Prif Weinidog.
- 03.16. O dan y protocol rhwng y Llywydd a'r Comisiynydd, mae'r Comisiynydd yn trin cwynion am ymddygiad yn y Siambr yn annerbyniadwy, ac yn eu cyfeirio at y Llywydd i'w hystyried.
- 03.17. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, derbyniwyd nifer o gwynion bod Aelodau wedi methu â delio â materion eraill, megis ymddygiad heddwas neu weithiwr yn y gwasanaeth iechyd. Mae'r materion hyn y tu allan i gylch gwaith yr Aelodau ac felly'r Comisiynydd. Ym mhob achos o'r fath, cysylltir â'r achwynydd a'i gyfeirio at y sefydliad priodol i ystyried ei gŵyn.

**Tabl 4: Cwynion yn ôl pwnc**

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
Ymddygiad ar y cyfryngau cymdeithasol	0	5	0	7	58
Camddefnyddio adnoddau	3	3	4	8	15
Safonau gwasanaeth	9	6	5	9	13
Methu â chofrestru	1	4	3	4	9
Y tu hwnt i gylch gwaith	6	7	7	6	7
Ymddygiad arall	3	5	7	9	4
<b>CYFANSWM</b>	<b>22</b>	<b>30</b>	<b>26</b>	<b>43</b>	<b>106</b>

- 03.18. Er gwaethaf nifer uchel y cwynion am ymddygiad difriol ar y cyfryngau cymdeithasol, rwy'n dal i fod o'r farn y byddai'n anghywir cyhoeddi canllawiau i'r Aelodau ar y pwnc hwn. Byddai gwneud hynny yn tueddu i roi'r argraff bod safon ymddygiad is yn dderbyniol ar y cyfryngau cymdeithasol nag mewn print neu wyneb yn wyneb. Rwy'n glir fy marn bod yn rhaid i Aelodau, cyn iddynt benderfynu defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, ystyried a yw'r sylw y maent yn ei wneud neu drafodaeth a gynhelir yn cadw at y safonau ymddygiad uchel a ddisgwylir ganddynt. Mae ymddygiad difriol ar y cyfryngau cymdeithasol, oherwydd eu defnydd eang, yn aml yn llawer mwy niweidiol nag ymddygiad difriol mewn sgwrs wyneb yn wyneb.
- 03.19. Dim ond Aelodau sydd i ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad, a hynny at ddibenion eu gweithgareddau fel Aelodau Cynulliad ac nid at ddibenion personol, gwleidyddol neu etholiadol.

Roedd y cwynion a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys honiadau o ddefnyddio staff cymorth Aelodau'r Cynulliad at ddibenion etholiadol, defnyddio ystafelloedd cynadledda ar gyfer cyfarfodydd pleidiau gwleidyddol, a defnyddio swyddfa etholaethol at ddibenion plaid wleidyddol. Yn ystod fy ngwaith ar nifer o'r cwynion o dan y categori hwn, rwyf wedi bod yn pryderu am ddarpariaethau amhendiant a allai fod yn anghyson yn y Cod, y Rheolau a'r Canllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Cynulliad ac mewn nifer o ddogfennau ar ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad yn y cyfnod cyn etholiadau. Rwyf wedi dod â'r materion hyn i sylw Clerc y Cynulliad a'r Pwyllgor. Rwy'n croesawu eu hymatebion y rhoddir sylw i'm pryderon wrth ailddrafftio'r dogfennau hyn yn rheolaidd. Rwy'n croesawu'r adolygiad o'r Cod Ymddygiad a gynhelir gan y Pwyllgor a'r adolygiad o'r Weithdrefn a dogfennau eraill a gynhelir gan y Clerc. Edrychaf ymlaen at barhau i gyfrannu at y gwaith pwysig hwn.

- 03.20. O dan Reol Sefydlog 2 mae'n ofynnol i Aelodau gofrestru darnau penodol o wybodaeth ynghylch eu buddiannau ariannol a buddiannau eraill o fewn terfynau amser penodol.<sup>16</sup> Mae methu â chofrestru'r manylion hyn yn amserol yn torri'r Cod a gall unrhyw un wneud cwyn ynghylch hyn. Fel y nodwyd ym mharagraff 03.10 uchod, mae dyletswydd statudol ar y Clerc i gyfeirio achosion lle amheuir y methwyd cofrestru at y Comisiynydd. Cyfeiriwyd naw Aelod at y Comisiynydd am amheuaeth y methwyd cofrestru. Ar dri achlysur, canfuwyd bod gwerth y buddiant yn is na'r trothwy cofrestru. Yn y chwe achos arall, nid oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach gan nad oedd y cofrestriad ond ychydig yn hwyr. Rwy'n fodlon bod y nifer gynyddol o gwynion am fethu â chofrestru buddiant yn fwy oherwydd diffyg dealltwriaeth o'r gofynion yn hytrach na dirywiad mewn ymddygiad.
- 03.21. Mae'r pedair cwyn am amrywiol faterion nad oeddent yn dod o fewn unrhyw un o'r categorïau uchod wedi'u grwpio gyda'i gilydd fel 'Arall'. Yn ddiddorol, ni chafwyd unrhyw gwynion am achos honedig o dorri'r Polisi Urddas a Pharch.<sup>17</sup> Nid yw'n eglur a yw hynny'n cynrychioli gwelliant yn ymddygiad Aelodau neu amharodrwydd 'dioddefwyr' i ddefnyddio'r broses gwynion.

## Cwynion a ddygwyd ymlaen i 2020-21

- 03.22. Ar ddiwedd y flwyddyn, ni wnaed penderfyniad ar dderbynioldeb saith cwyn.<sup>18</sup> Mewn dau o'r rhain, ni chymerwyd dim camau i osgoi'r risg o ragfarn mewn ymchwiliadau i'r heddlu. Roedd tair cwyn, gan gynnwys un a ddygwyd ymlaen o 2018-19, yn destun ymchwiliad.

## Tueddiadau

- 03.23. Oherwydd y gwahanol ffyrdd y cofnodwyd cwynion yn y gorffennol, nid yw'n hawdd nodi tueddiadau. Dylai'r protocol cofnodi sydd bellach ar waith wneud y dasg honno'n haws yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n amlwg y bu cynnydd sylweddol iawn eleni yn nifer y cwynion a gafwyd. Yr hyn nad yw'n glir yw a yw hyn yn cynrychioli mwy o ddiddordeb yn safonau ymddygiad Aelodau, dirywiad yn ymddygiad yr Aelodau neu fwy o ymwybyddiaeth o'r broses gwynion.
- 03.24. Un arfer anffodus a ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn oedd parodrwydd nifer fach o Aelodau i ddefnyddio'r broses gwynion fel arf gwleidyddol. Fel y nodwyd uchod, roedd un Aelod yn gyfrifol am fwy na hanner yr holl gwynion a wnaed gan Aelodau. Roedd hefyd yn amlwg bod nifer fach o Aelodau wedi defnyddio aelod o'r cyhoedd i wneud cwyn ar eu rhan ar adegau eraill. Nid oes unrhyw beth o'i le, wrth gwrs, gydag Aelod yn gwneud cwynion pan fyddant yn credu'n

---

16 <https://senedd.wales/cy/memhome/code-conduct-mem/Pages/standing-orders-conduct.aspx>

17 <https://senedd.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/Dignity-and-Respect-Policy.aspx>

18 Mae un o'r rhain bellach wedi'i bennu'n dderbyniadwy ac yn destun ymchwiliad; mae pedwar wedi'u pennu'n annerbyniadwy

wirioneddol y bu camymddwyn ond nid yw'r arfer sy'n dod i'r amlwg o ddefnyddio'r broses gwynion i sgorio pwyntiau gwleidyddol yn un i'w gymeradwyo.

- 03.25. Parhaodd lefel y cwynion annerbyniadwy ar y lefel uchel a welwyd dros y pum mlynedd diwethaf. Mae delio â chwynion annerbyniadwy yn gwastraffu adnoddau gan gynnwys, ar brydiau, amser yr Aelod y mae'r gŵyn yn ymwneud â'i ymddygiad. Efallai fod y lefel uchel hon i raddau oherwydd diffyg dealltwriaeth y cyhoedd o'r broses gwynion. Yn Adran 06 o'r adroddiad hwn, nodais gamau adfer yr wyf yn bwriadu eu cymryd yn 2020-21.

# 04. Gwaith arall

- 04.01. Yn ystod y flwyddyn, ni chafwyd dim ceisiadau ffurfiol gan y Cynulliad am gyngor ar unrhyw fater o egwyddor gyffredinol. Arferwyd hawl y Comisiynydd, o dan adran 7 o'r Mesur, i roi cyngor i'r Cynulliad ar faterion o egwyddor gyffredinol unwaith. At hynny, rwyf ar sawl achlysur wedi rhoi cyngor anffurfiol i'r Pwyllgor ynghylch ei waith wrth adolygu'r Cod Ymddygiad.
- 04.02. Ar sawl achlysur dros y flwyddyn, mae staff Swyddfa'r Comisiynydd wedi rhoi cyngor i'r cyhoedd ar y broses gwynion.
- 04.03. Yn ystod ei gyfnod ef, gweithiodd Syr Roderick gyda'r Pwyllgor ar ei adolygiad o'r Cod Ymddygiad a'r polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig. I lywio'r adolygiad hwnnw, bu'n cynnal trafodaethau â swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Safonau i ystyried sut y gallai eu profiadau lywio unrhyw gamau i'w cymryd yng Nghymru.
- 04.04. Dros yr haf, cytunodd grŵp Llafur Cymru a grŵp Plaid Brexit i ddilyn y protocol ar brosesu cwynion a gawsant am eu Haelodau. O ganlyniad, mae holl bleidiau'r Cynulliad bellach wedi cytuno i'w ddarpariaethau.
- 04.05. Yn dilyn fy mhenodiad, cefais sesiynau briffio defnyddiol a chynhwysfawr gan Glerc y Cynulliad ac uwch-aelodau o staff Comisiwn y Cynulliad.
- 04.06. Cynigiais gwrdd â phob un o'r pleidiau gwleidyddol a chydag Aelodau annibynnol i egluro iddynt sut yr wyf yn cynnig cyflawni fy nyletswyddau ac i ateb eu cwestiynau. Manteisiwyd ar y cynnig hwn gan Grŵp Llafur Cymru ac UKIP a chan arweinydd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig ar ran ei Aelodau. Hefyd, cefais gyfarfod defnyddiol ac addysgiadol gyda'r Pwyllgor.
- 04.07. Mewn cyfarfod gyda Heddlu De Cymru cytunwyd mewn egwyddor y dylid cael protocol neu femorandwm cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â threfniadau datgelu gwybodaeth rhwng y Comisiynydd a'r heddlu. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y gwaith ar delerau'r memorandwm arfaethedig yn mynd rhagddo'n dda.
- 04.08. Rwyf wedi cyfrannu at waith y Pwyllgor mewn dau faes pwysig: yr adolygiad o'r Cod Ymddygiad a'r canllawiau cysylltiedig, ac wrth ddiddymu'r gofyniad i Aelodau gofrestru buddion ariannol a buddion eraill gyda'r Cynulliad a'r Comisiwn Etholiadol.
- 04.09. Ymatebais i ymgynghoriad y Bwrdd Taliadau, 'Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad', ac argymhellais y dylid cynnwys darpariaethau i leihau'r risg o dwyll a nodwyd yn ystod ymchwiliad. Roedd y risg honno oherwydd nad oedd dim gofyniad i Aelodau gadw unrhyw gofnodion o'r oriau dyddiol a weithiwyd gan eu staff cymorth ar waith yn ymwneud â'r Cynulliad. Heb gofnodion o'r fath, mae rhwydd hynt i Aelod sydd am fanteisio ar y system ddefnyddio ei staff cymorth ar gyfer gwaith plaid wleidyddol neu waith etholiadol yn ystod amser y cânt eu talu o'r pwrs cyhoeddus.
- 04.10. Ers sefydlu'r rôl yn 2009, mae ymholiadau'r wasg ynghylch gwaith y Comisiynydd wedi cael eu trin gan Swyddfa'r Wasg yn y Cynulliad. Er mwyn osgoi unrhyw risg o wrthdaro buddiannau rhwng y Cynulliad a'r Comisiynydd annibynnol, mae trefniadau wedi'u rhoi ar waith i'r sector preifat ddelio â cheisiadau gan y cyfryngau am wybodaeth am waith y Comisiynydd. Mae trefniadau hefyd wedi'u sefydlu ar gyfer llunio trawsgrifiadau annibynnol o wrandawiadau tystiolaeth a chyfweliadau.



# 05. Gwariant

05.01. O dan delerau'r Mesur, raid i'r Comisiwn dalu'r Comisiynydd y cyflog a'r lwfansau a gytunir yn nhelerau ac amodau'r penodiad. Rhaid i'r Comisiwn hefyd dalu'r holl dreuliau rhesymol yr eir iddynt yn gyfreithlon gan y Comisiynydd wrth gyflogi staff, prynu nwyddau neu wasanaethau, neu dalu lwfansau neu dreuliau i dystion.<sup>19</sup> Drwy gydol y flwyddyn, gwnaed pob ymdrech i gadw'r gwariant mor isel â phosibl cyn belled â bod dyletswyddau'r Comisiynydd yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

05.02. Mae Tabl 5 yn nodi'r gwariant ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020.

**Tabl 5: Gwariant o fis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020**

	2015 -16 £	2016 -17 £	2017 -18 £	2018 - 19 £	2019 - 20 £
Cyflog y Comisiynydd <sup>20 21</sup>	19858	17816	19535	26105	17446
Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynydd	0	73	180	0	376
Lletygarwch a chostau eraill	0	0	0	0	0
Cyflog y Comisiynydd Dros Dro <sup>22</sup>	0	0	0	4786	10188
Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynydd Dros Dro	0	0	0	695	2655
Lletygarwch a chostau eraill y Comisiynydd Dros Dro	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm gwariant y Comisiynydd a'r Comisiynydd Dros Dro</b>	<b>19858</b>	<b>17889</b>	<b>19715</b>	<b>31586</b>	<b>30665</b>
Cyflog staff <sup>23</sup>	3742	4070	5756	44798	123630
Teithio a Chynhaliaeth staff <sup>24</sup>	0	0	0	0	504
<b>Cyfanswm costau staff</b>	<b>3742</b>	<b>4070</b>	<b>5756</b>	<b>44798</b>	<b>124134</b>
Gwariant arall a gafwyd <sup>25</sup>	0	0	0	0	1661
<b>CYFANSWM GWARIANT SWYDDFA'R COMISIYNYDD</b>	<b>23600</b>	<b>21959</b>	<b>25471</b>	<b>76384</b>	<b>156460</b>

19 Adran 3 ac Atodlen paragraff 5

20 Hyd at ymddiswyddiad y Comisiynydd ar 11 Tachwedd 2019

21 Mae cyflog y Comisiynydd yn cynnwys y lwfans cadw blynyddol

22 O'r dyddiad penodi ar 13 Tachwedd 2019

23 Ym mis Tachwedd 2018, cafodd nifer staff swyddfa'r Comisiynydd ei gynyddu o un aelod rhan-amser i un aelod llawnamser ac un aelod rhan-amser. Caiff staff eu rhoi ar secondiad gan Gomisiwn y Cynulliad


24 Cyn 2019-20, nid oedd y costau hyn yn cael eu priodoli i swyddfa'r Comisiynydd

25 Mae hyn yn cynnwys talu am nwyddau a gwasanaethau fel trawsgrifio cyfweiliadau a'r ffi diogelu data. Nid yw'r costau'n rhestr hollgynhwysol, ac nid ydynt yn cynnwys, er enghraifft, cost gwresogi'r a goleuo'r swyddfa a chymorth TGCh. Ystyrir cynnwys y costau hyn yn adroddiad blynyddol 2020-21



# 06. Y flwyddyn sydd i ddod

- 06.01. Bydd fy mhenodiad fel Comisiynydd Dros Dro yn dod i ben cyn gynted ag y bydd Comisiynydd newydd yn cael ei benodi, a mater i'r unigolyn hwnnw fydd pennu'r blaenoriaethau ar gyfer gweddill 2020-21.
- 06.02. Tan hynny, yn ogystal â'r gwaith o ymchwilio i gwynion, byddaf yn cyflwyno trefniadau mwy agored a thryloyw i swyddfa'r Comisiynydd trwy gyhoeddi ar y wefan wybodaeth am fy muddiannau ariannol i a'm buddiannau eraill o dan yr un categorïau yn fras ag sy'n ofynnol gan yr Aelodau.<sup>26</sup> Rwyf hefyd yn bwriadu cyhoeddi gwybodaeth am unrhyw roddion neu letygarwch yr wyf yn eu derbyn sydd uwchlaw'r trothwy cofrestru ar gyfer Aelodau ac sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'm rôl fel Comisiynydd Dros Dro. Byddaf hefyd yn ystyried pa awydd sydd i gyhoeddi ystadegau misol am y gwaith a wneir ar gwynion.
- 06.03. Mewn ymgais i leihau nifer y cwynion annerbyniadwy a geir, bydd canllaw newydd hawdd ei ddefnyddio yn cael ei lunio. Bydd y canllaw hwn yn egluro gallu'r Comisiynydd i ofyn am gymorth arbenigol wrth, er enghraifft, ymchwilio i achos honedig o dorri'r Polisi Urddas a Pharch. Byddaf yn ystyried beth yw'r ffordd orau o ddwyn y canllaw newydd i sylw'r cyhoedd, heblaw am gyhoeddi'r canllaw ar wefan y Comisiynydd.
- 06.04. Byddaf yn parhau â'r ddeialog yr wyf yn ei chael â Heddlu De Cymru gyda'r bwriad o gwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn gynnar yn y flwyddyn sydd i ddod. Byddwn yn ystyried y posibilrwydd o greu memoranda tebyg gyda heddluoedd eraill.
- 06.05. Bydd fy swyddfa yn gwneud darnau o waith i wella systemau a threfniadau llywodraethu. Bydd ystadegau'n cael eu casglu ar geisiadau am gyngor ar y broses gwynion. Byddwn yn ystyried gosod targedau perfformiad ar gyfer ymdrin â chwynion a chasglu gwybodaeth ar gost lawn swyddfa'r Comisiynydd.
- 06.06. Ynghyd â'm staff, edrychaf ymlaen at gwrdd â'n cymheiriaid o awdurdodaethau eraill Ynysoedd Prydain yn y Gynhadledd Safonau sydd bellach i fod i gael ei chynnal yng Nghaerdydd yn yr hydref. Mae'r digwyddiad hwn yn cynnig cyfle defnyddiol i ddysgu am arferion da o ran materion safonau.
- 06.07. Bydd fy staff a minnau yn parhau i weithio mor gynaliadwy â phosibl. Byddaf yn parhau i deithio o Felffast i Gaerdydd cyn lleied ag y bo modd ar yr amod fy mod i'n perfformio fy nyletswyddau'n effeithiol. I'r perwyl hwnnw, bydd y trefniadau cyfarfod o bell, a ddechreuwyd cyn cyfyngiadau symud COVID-19, yn parhau ac yn digwydd yn fwy amlwg. Bydd fy swyddfa yn parhau i weithio'n ddi-bapur gan mwyaf, gan lunio copiâu caled o ddogfennau dim ond pan fo gwir raid. Bydd y trefniadau gweithio gartref, sydd wedi bod yn llwyddiannus yn ystod y cyfyngiadau symud hyn, yn parhau lle bo hynny'n briodol.
- 06.08. Byddaf yn parhau i gynorthwyo'r Pwyllgor a'r Clerc yn eu gwaith pwysig o ddiwygio'r Cod Ymddygiad a'r canllawiau cysylltiedig.



**Douglas Bain CBE TD**

**Comisiynydd Safonau Dros Dro y Senedd**

**22 Mehefin 2020**

---

<sup>26</sup> Cyhoeddwyd y wybodaeth ar 20 Ebrill 2020